estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol mewn ysgolion cynradd

Ionawr 2017



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **4**

**Argymhellion** **6**

**Effaith yr arweiniad ‘Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol’** **7**

**Rheoli presenoldeb athrawon** **8**

Monitro ac olrhain absenoldeb athrawon 8
Rheoli cyflenwi ar gyfer athrawon absennol 9
Gwaith sy’n cael ei wneud gan ddisgyblion pan fydd yr athro dosbarth yn absennol 11
Cyfleoedd rheoli perfformiad a hyfforddi ar gyfer athrawon cyflenwi 11

**Rheoli presenoldeb penaethiaid** **13**

**Geirfa** **15**

**Cyfeiriadau** **16**

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2015-2016. Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a chyrff llywodraethol mewn ysgolion cynradd, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb hefyd i'r rheiny sy'n gweithio gydag ysgolion ffydd trwy awdurdodau esgobaethol.

Mae'r adroddiad yn arfarnu effaith arweiniad Llywodraeth Cymru ar 'Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol' mewn ysgolion cynradd. Mae'n ystyried pa mor dda y mae ysgolion cynradd, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi rhoi'r arweiniad ar waith a'r effaith y mae wedi ei chael ar reoli absenoldeb athrawon a phenaethiaid.

Mae canfyddiadau'r arolwg yn defnyddio tystiolaeth o arolygiadau ac o 60 ymateb[1] i holiaduron a anfonwyd at sampl gynrychioliadol o benaethiaid ysgolion cynradd, cyrff llywodraethol a chynrychiolwyr awdurdodau lleol. Bu arolygwyr yn cyfweld â sampl o benaethiaid, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, a dwy asiantaeth gyflenwi sy'n darparu staff addysgu cyflenwi hefyd.

## Cefndir

O dan reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, mae ysgolion ledled Cymru yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â'r modd y maent yn trefnu, yn defnyddio a rheoli eu gweithlu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006). Agwedd bwysig ar y cyfrifoldeb hwn yw sut mae ysgolion yn rheoli presenoldeb ac absenoldeb staff.

I ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru, cyhoeddodd Estyn adroddiad ar '*Effaith absenoldeb athrawon'* (Estyn, 2013). Daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol:

- Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae dysgwyr yn gwneud llai o gynnydd pan fydd yr athro dosbarth yn absennol, ac mae ymddygiad dysgwyr yn aml yn waeth
- Mae addysgu staff cyflenwi yn aml yn aneffeithiol, yn bennaf gan nad ydynt yn gwybod digon am anghenion y disgyblion, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd
- Mae rhai ysgolion, yn enwedig ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r rheiny sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd, yn ei chael yn anodd dod o hyd i athrawon cyflenwi addas
- Nid yw staff cyflenwi yn cael llawer o gyfleoedd datblygiad proffesiynol, ac yn aml, mae'n rhaid iddynt drefnu eu cyrsiau hyfforddi eu hunain

[1] 39 gan benaethiaid, 8 gan gadeiryddion llywodraethwyr, ac 13 gan awdurdodau lleol

Ochr yn ochr â’r gwaith hwn gan Estyn, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (2013) adroddiad ynghylch ‘Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon’. Roedd yr adroddiad yn holi i ba raddau y caiff dysgwyr, ysgolion a’r pwrs cyhoeddus eu gwasanaethu’n dda gan drefniadau i gyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon. Dyma’r canfyddiadau allweddol o’r adroddiad:

- Mae gwariant ar staff cyflenwi yn codi, ac fe gaiff cynnydd dysgwyr ei effeithio gan nifer gynyddol o wersi sy’n cael eu cyflenwi gan staff heblaw’r athro arferol
- Nid yw ysgolion yn rheoli trefniadau cyflenwi yn ddigon da i sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd da a’u bod yn cael eu diogelu
- Nid yw ysgolion bob amser yn rheoli adnoddau sy’n cael eu gwario ar staff cyflenwi yn effeithiol

I ymateb i’r adroddiadau hyn, gwnaed cyfres o argymhellion gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) y dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddal a lledaenu data perthnasol a dibynadwy ar absenoldeb athrawon o’r ystafell ddosbarth er mwyn gallu monitro achosion o absenoldeb, a’r rhesymau drosto, yn fwy trylwyr
- Cynnal arfarniad o effeithiolrwydd yr hyfforddiant a gyflwynir; dylai’r arfarniad hwn gynnwys effaith gwahanol ffurfiau o gyflwyno hyfforddiant ar absenoldeb athrawon o’r ystafell ddosbarth
- Diwygio rheoliadau i’w gwneud yn ofyniad i o leiaf un aelod o bob corff llywodraethol ysgol gael ei ddynodi i arwain ar faterion AD
- Adolygu’r hyfforddiant a ddarperir i benaethiaid i sicrhau bod mwy o bwyslais ar reoli absenoldeb ystafell ddosbarth
- Gweithio gyda chynrychiolwyr o CLlLC, Asiantaethau Cyflenwi ac ysgolion i ddatblygu’r fanyleb ar gyfer ail-dendro contract y Fframwaith ar gyfer staff cyflenwi ysgolion, i gynnwys gofyniad i staff cyflenwi allu elwa ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus

Yng Ngorffennaf 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru’r ddogfen arweiniad, ‘Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol’. Mae’r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar y modd y gall ysgolion reoli presenoldeb ac absenoldeb a sicrhau eu bod yn rhoi blaenoriaeth i gynnal parhad y dysgu. Mae’r ddogfen yn canolbwyntio ar gynorthwyo penaethiaid, cyrff llywodraethol, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli absenoldeb ymarferwyr ystafell ddosbarth. Mae’r arweiniad yn archwilio cyflenwi’n effeithiol ar gyfer absenoldeb ymarferwyr ystafell ddosbarth, rolau a chyfrifoldeb o ran rheoli absenoldeb a sicrhau bod trefniadau cyflenwi priodol yn cael eu darparu, rheoli perfformiad, monitro absenoldeb a gofynion diogelu.

Yn Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd adroddiad gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn archwilio’r effaith yr oedd athrawon cyflenwi yn ei chael ar ddisgyblion. Mae argymhellion allweddol yr adroddiad hwn yn cynnwys y dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddechrau gweithio ar fodel newydd ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi
- Gofyn am adolygiad thematig pellach gan Estyn, pan fydd modd asesu effeithiolrwydd yr arweiniad

- Gwneud gwaith ymchwil ar unwaith i bennu a oes cynnydd yn y defnydd a wneir o athrawon cyflenwi mewn ardaloedd dan anfantais
- Gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn datblygu targedau ar gyfer monitro absenoldeb, fel y nodir yn yr arweiniad newydd, sydd wedi eu seilio ar y data y maent wedi ei gasglu, a data o ysgolion tebyg
- Ystyried ar frys y goblygiadau ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) sy’n cael eu defnyddio fel athrawon cyflenwi i’w galluogi i ddangos yn llawn eu bod wedi cyflawni safonau athrawon proffesiynol
- Rhoi cyfeiriad clir i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar eu rôl mewn perthynas â defnyddio athrawon cyflenwi
- Darparu eglurder ar y modd y gellir defnyddio’r Fargen Newydd a chynlluniau datblygu ysgol yn gadarnhaol i gefnogi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus athrawon cyflenwi

## Prif ganfyddiadau

### Rheoli presenoldeb athrawon

1 Mae mwyafrif y penaethiaid y gwnaed arolwg ohonynt yn ymwybodol o arweiniad 'Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol' Llywodraeth Cymru, ond lleiafrif ohonynt yn unig sydd wedi darllen argymhellion y ddogfen, a gweithredu yn unol â nhw.

2 Mae gan bron bob ysgol systemau cadarn ar waith i olrhain a monitro absenoldeb staff o ganlyniad i salwch, yn unol â'u polisi ar reoli presenoldeb. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion neu awdurdodau lleol sy'n dal data ar ba mor aml y mae athrawon dosbarth yn absennol o'u dosbarth am resymau heblaw salwch, er enghraifft ar gyfer hyfforddiant neu ddyletswyddau eraill yn yr ysgol.

3 Mae tua hanner y penaethiaid wedi cael hyfforddiant yn y tair blynedd ddiwethaf ar reoli presenoldeb staff. Fodd bynnag, nid yw tua hanner o'r rhain yn deall yn llawn nac yn cymhwyso pob agwedd ar weithdrefnau eu hawdurdod lleol ar gyfer rheoli absenoldeb.

4 Mae llawer o benaethiaid yn adrodd ar bresenoldeb staff i gorff llywodraethol eu hysgol yn rheolaidd, ond ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb staff yng nghynlluniau datblygu eu hysgol neu'n gosod targedau ar gyfer ei wella.

5 Wrth drefnu cyflenwi wedi ei gynllunio ar gyfer athrawon dosbarth, y prif ffactorau sy'n cael eu hystyried gan arweinwyr ysgol yw ansawdd yr addysgu, ansawdd rheoli ymddygiad, a ph'un a yw personél cyflenwi yn hysbys i'r ysgol. Wrth drefnu cyflenwi heb ei gynllunio, y prif ffactorau sy'n cael eu hystyried gan arweinwyr ysgol yw pa mor gyflym y gall rhywun gyrraedd yr ysgol, a'r gost.

6 Mae bron pob ysgol wedi cael anhawster yn trefnu darpariaeth gyflenwi addas ar gyfer athrawon dosbarth absennol. I leiafrif o ysgolion, mae hyn yn digwydd tua hanner yr amser, ac i rai ysgolion, mae hyn yn digwydd tua thri chwarter yr amser. Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, caiff ysgolion yn aml eu cyfyngu o ran dewis ac ansawdd yr athrawon cyflenwi sydd ar gael.

7 Ar gyfer absenoldebau wedi eu cynllunio, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gadael gwaith ac yn cynllunio dogfennau ar gyfer yr athro cyflenwi. Mewn tua hanner yr ysgolion yn unig y mae'r gwaith ar yr un lefel ag y byddai disgyblion yn ei dderbyn fel arfer. Ar gyfer absenoldebau heb eu cynllunio, yn y mwyafrif o ysgolion, mae athrawon cyflenwi yn defnyddio dogfennau cynllunio'r athro dosbarth i ddarparu cyd-destun wrth gynllunio gwersi. Fodd bynnag, pan na fydd y wybodaeth gynllunio hon ar gael, mae athrawon cyflenwi yn cynllunio eu gwaith eu hunain ar gyfer y disgyblion heb arweiniad. Yn aml, mae hyn yn golygu eu bod yn canolbwyntio ar gadw plant yn brysur, yn hytrach nag adeiladu ar yr hyn y mae disgyblion eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud.

8 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn darparu rhyw fath o adborth ar berfformiad athrawon cyflenwi i arweinwyr ysgol ac asiantaethau cyflenwi. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sy'n rhoi adborth i'r athro cyflenwi ei hun. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n cynnal unrhyw fath o reoli perfformiad staff cyflenwi yn ffurfiol, oni bai eu bod yn cael eu cyflogi yn yr ysgol am dymor neu fwy.

**Rheoli presenoldeb penaethiaid**

9 Er bod dogfen Llywodraeth Cymru 'Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol' yn rhoi arweiniad defnyddiol i ysgolion ar reoli absenoldeb athrawon, nid yw'n rhoi arweiniad i ysgolion, cyrff llywodraethol neu awdurdodau lleol ar reoli absenoldeb penaethiaid. Nid oes gan fwyafrif yr ysgolion gynllun ar waith ar y ffordd orau o drefnu darpariaeth gyflenwi pan fydd pennaeth yn absennol.

10 Bron ym mhob ysgol, yn ystod cyfnod o absenoldeb pennaeth yn y tymor byr, mae'r dirprwy bennaeth yn ymgymryd â rôl y pennaeth. Bron ym mhob ysgol, yn ystod absenoldeb y pennaeth yn y tymor hir, mae'r awdurdod lleol yn cysylltu â chadeirydd y llywodraethwyr neu'r corff llywodraethol llawn i drefnu darpariaeth gyflenwi addas. Y dirprwy bennaeth sy'n gwneud y gwaith cyflenwi hwn gan amlaf hefyd. Os nad y dirprwy bennaeth yw'r unigolyn mwyaf priodol i arwain yr ysgol pan fydd pennaeth yn absennol, mae awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o atebion cyflenwi eraill. Yn yr arfer orau, mae awdurdodau lleol yn cadw cofrestr o uwch arweinwyr o ysgolion lleol eraill a allai ddarparu arweinyddiaeth addas yn lle'r pennaeth yn yr amgylchiadau hyn.

## Argymhellion

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Hyrwyddo'r ddogfen 'Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol' yn ehangach

A2 Rhoi arweiniad i ysgolion ac awdurdodau lleol ar fonitro, cofnodi ac arfarnu effaith absenoldeb staff o ganlyniad i weithgareddau heblaw salwch, fel hyfforddiant, cynadleddau a chymorth o ysgol i ysgol

A3 Darparu arweiniad ar reoli absenoldeb penaethiaid yn effeithiol

A4 Sicrhau yr eir i'r afael â darpariaeth staff cyflenwi yn y sector cyfrwng Cymraeg wrth adolygu'r strategaeth gweithlu athrawon

**Dylai awdurdodau lleol:**

A5 Sicrhau bod hyfforddiant ar reoli presenoldeb gweithlu ar gael i bob pennaeth a'i fod yn ffurfio rhan o becyn ymsefydlu ar gyfer yr holl benaethiaid newydd a benodir

A6 Darparu data meincnodi rheolaidd i ysgolion ar bresenoldeb staff yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru

**Dylai ysgolion:**

A7 Fonitro gwaith athrawon cyflenwi yn rheolaidd a sicrhau bod pob disgybl yn parhau i wneud cynnydd priodol pan fydd eu hathro dosbarth arferol yn absennol

A8 Rhoi adborth i athrawon cyflenwi ar eu perfformiad

A9 Sicrhau bod athrawon cyflenwi yn gallu mynd at ddogfennau cynllunio athrawon bob amser

## Effaith yr arweiniad ‘Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol’

11 Mae mwyafrif y penaethiaid y gwnaed arolwg ohonynt yn ymwybodol o ddogfen arweiniad Llywodraeth Cymru, ‘Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol’ (Llywodraeth Cymru, 2015). Fodd bynnag, ychydig o benaethiaid yn unig sydd wedi ei darllen ac wedi gweithredu yn unol â’i hargymhellion.

12 Yn yr ysgolion prin sydd wedi gwneud newidiadau yn dilyn cyhoeddi’r ddogfen, mae arweinwyr wedi:

- codi ymwybyddiaeth staff am bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd ac effaith bosibl eu habsenoldeb ar ddisgyblion
- gweithdrefnau gwell ar gyfer cofnodi a monitro presenoldeb staff
- cymhwyso polisi’r ysgol ar reoli absenoldeb staff yn fwy cyson
- diweddaru polisïau perthnasol
- cynnwys targedau priodol i wella presenoldeb y gweithlu yn y cynllun datblygu ysgol
- gwella systemau i reoli perfformiad staff cyflenwi

Mae hyn wedi arwain at reoli presenoldeb y gweithlu yn well mewn llawer o’r ysgolion hyn.

13 Lleiafrif o gyrff llywodraethol yn unig y gwnaed arolwg ohonynt sy’n ymwybodol o’r arweiniad. Mae rhai o’r cyrff llywodraethol hyn wedi defnyddio’r cwestiynau hunanfyfyrio defnyddiol yn yr atodiad i’w helpu i fonitro eu perfformiad a’u gweithdrefnau ar gyfer rheoli absenoldeb staff.

14 Mae bron pob un o’r awdurdodau lleol y gwnaed arolwg ohonynt yn ymwybodol o’r ddogfen. Mae lleiafrif o’r rhain yn defnyddio’r cwestiynau hunanfyfyrio yn Atodiad 1 fel man cychwyn ar gyfer cynnal trafodaeth gydag arweinwyr ysgol ar y modd y mae’r ysgol yn rheoli absenoldeb staff. Ychydig iawn o awdurdodau lleol yn unig sydd wedi trefnu gweithdai neu friffiau ar gyfer penaethiaid ar ddefnyddio’r arweiniad, neu sydd â chymorth manylach a gwell ar gyfer ysgolion o ran rheoli absenoldeb staff.

15 Mae’r ddogfen yn rhoi arweiniad defnyddiol ar y modd y gall ysgolion reoli presenoldeb ac absenoldeb ymarferwyr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, nid yw’n rhoi arweiniad penodol i ysgolion, cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol ar reoli absenoldeb penaethiaid. Mae hyn yn golygu nad oes arweiniad gan Lywodraeth Cymru i wneud yn siwr bod yr holl awdurdodau lleol yn rheoli absenoldeb penaethiaid mewn modd cyson ac effeithiol.

## Rheoli presenoldeb athrawon

### Monitro ac olrhain absenoldeb athrawon

16 Ar wahân i'w gwybodaeth am arweiniad 'Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol' (Llywodraeth Cymru, 2015), a'u defnydd ohono, mae gan bron bob ysgol y gwnaed arolwg ohonynt systemau cadarn ar waith i olrhain a monitro pan fydd staff yn absennol o'r gwaith, yn unol â'u polisi ar reoli presenoldeb. Maent yn cadw cofnodion cywir ar absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch. Defnyddiant amrywiaeth o ddulliau i fonitro ac adrodd ar absenoldeb staff, gan gynnwys:

- rhoi gweithdrefn mewngofnodi ac allgofnodi staff ar waith
- monitro presenoldeb staff unigol
- gweithredu yn unol â phwyntiau sbarduno absenoldeb
- cofnodi data ar systemau electronig yr awdurdod lleol
- cwblhau adroddiadau absenoldeb misol ar gyfer yr awdurdod lleol
- dadansoddi data a gafwyd gan yr awdurdod lleol i gymharu cyfraddau a phatrymau absenoldeb

17 Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sy'n cofnodi gwybodaeth am ba mor aml y mae athrawon dosbarth yn absennol o'u dosbarth am resymau eraill, er enghraifft ar gyfer hyfforddiant, dyletswyddau yn yr ysgol neu gymryd rhan mewn mentrau lleol a chenedlaethol. O ganlyniad, nid oes data ar gael i ddadansoddi pa mor aml y caiff disgyblion eu haddysgu gan rywun heblaw eu hathro dosbarth.

18 Mae bron pob ysgol yn cynnal cyfweliadau 'dychwelyd i'r gwaith' ar ôl i aelod o staff fod yn absennol o'r ysgol o ganlyniad i salwch. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi arweinwyr ysgol i ddeall y rhesymau y tu ôl i'r absenoldeb ac yn helpu ysgolion i reoli presenoldeb y gweithlu yn well.

19 Ychydig iawn o ysgolion sy'n cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb staff neu'n gosod targedau ar gyfer gwella yn eu cynllun datblygu ysgol yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, 'Cynlluniau Datblygu Ysgolion' (Llywodraeth Cymru, 2014). Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion wedi rhoi'r arweiniad hwn ar waith eto.

20 Mae llawer o benaethiaid yn adrodd ar absenoldeb staff o ganlyniad i salwch yn eu hadroddiad tymhorol ar gyfer llywodraethwyr. Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn darparu templed i ysgolion at y diben hwn i helpu penaethiaid gyflwyno data absenoldeb staff yn glir a nodi tueddiadau.

21 Mae llawer o gyrff llywodraethol yn monitro'r defnydd a wneir o athrawon cyflenwi, a'r gost, o ganlyniad i absenoldeb staff oherwydd salwch. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sy'n ystyried effaith absenoldeb staff ar safonau a darpariaeth yn gyffredinol.

22 Mae tua hanner y penaethiaid wedi derbyn hyfforddiant ar reoli presenoldeb staff gan eu hawdurdod lleol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Yn yr arfer orau, mae awdurdodau lleol yn cynnwys hyfforddiant ar reoli presenoldeb y gweithlu fel rhan o'r pecyn ymsefydlu ar gyfer penaethiaid newydd a benodwyd. O ganlyniad, yn yr awdurdodau lleol hyn, mae'r holl benaethiaid yn ymwybodol o brosesau a disgwyliadau o ran rheoli absenoldeb staff.

23 Mae bron pob awdurdod lleol yn casglu data gan ysgolion ar absenoldeb staff o ganlyniad i salwch neu afiechyd, gan ddefnyddio systemau electronig fel arfer. Mae llawer o ysgolion yn anfon manylion am gyfweliadau 'dychwelyd i'r gwaith' i'w hawdurdodau lleol. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sy'n casglu data gan ysgolion ar faint o amser y mae athrawon dosbarth yn absennol o'u dosbarth am resymau eraill. Ychydig o awdurdodau lleol yn unig sy'n darparu unrhyw ddata meincnodi i ysgolion ar bresenoldeb i gynorthwyo arweinwyr ysgol â rheoli a chymharu eu cyfraddau presenoldeb staff eu hunain.

24 Mae awdurdodau lleol ag arfer orau yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i fonitro presenoldeb staff ysgol, gan gynnwys:

- sicrhau, os caiff ei fabwysiadu gan y corff llywodraethol, bod ysgolion yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod lleol ar reoli presenoldeb staff
- cyflwyno diweddariadau rheolaidd i ysgolion ar reoli staff yn effeithiol
- defnyddio amrywiaeth o systemau cofnodi electronig i helpu ysgolion i lenwi ffurflenni rheolaidd ar bresenoldeb, sy'n cael eu cofnodi'n ganolog
- dadansoddi adroddiadau olrhain presenoldeb ysgolion yn rheolaidd
- cyflwyno adroddiadau chwarterol i ysgolion ar ddiwrnodau a gollwyd fesul cyflogai a thueddiadau mewn absenoldebau; cynhelir trafodaethau ar y data yng nghyfarfodydd grwpiau ymgynghori penaethiaid a chyfarfodydd uwch dîm rheoli'r gwasanaeth addysg

**Rheoli cyflenwi ar gyfer athrawon absennol**

25 Mae arweinwyr ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i ffactorau fel ansawdd yr addysgu a rheoli ymddygiad wrth drefnu darpariaeth gyflenwi ar gyfer absenoldebau wedi eu cynllunio. Fodd bynnag, wrth wneud trefniadau i gyflenwi ar gyfer absenoldeb heb ei gynllunio, mae arweinwyr yn rhoi mwy o bwys i ffactorau fel pa mor gyflym y gall staff gyrraedd yr ysgol, a'r gost.

26 Ar gyfer absenoldebau wedi eu cynllunio a heb eu cynllunio o hyd at wythnos, dyma'r mathau mwyaf cyffredin o ddarpariaeth gyflenwi a ddefnyddir i addysgu dosbarth:

- defnyddio staff cymorth mewnol a goruchwylwyr cyflenwi [2]
- cyflogi athrawon trwy asiantaeth addysgu
- cyflogi athrawon cyflenwi y mae'r ysgol yn eu hadnabod yn uniongyrchol

27 Ar gyfer absenoldeb wedi ei gynllunio a heb ei gynllunio o fwy nag wythnos, y math mwyaf cyffredin o ddarpariaeth gyflenwi yw defnyddio athrawon a gyflogir trwy asiantaeth addysgu.

28 Mae mathau eraill o ddarpariaeth gyflenwi a ddefnyddir yn llai rheolaidd, yn enwedig ar gyfer absenoldeb tymor byr, yn cynnwys:

- defnyddio athrawon nad oes ganddynt gyfrifoldeb dosbarth (gan gynnwys y pennaeth)
- trefnu i athrawon a gyflogir yn yr ysgol yn rhan-amser weithio oriau ychwanegol
- dosbarthu disgyblion i ddosbarthiadau eraill

[2] Yn unol â Chyngor y Gweithlu Addysg (2016)

29 Mae rhai penaethiaid yn pryderu am fforddiadwyedd cyflenwi. Yn yr achosion hyn, mae penaethiaid yn aml yn dewis yr opsiwn rhataf sydd ar gael wrth drefnu staff cyflenwi.

**Anawsterau wrth gael athrawon cyflenwi**

30 Mae bron pob ysgol yn wynebu rhywfaint o anhawster wrth drefnu darpariaeth gyflenwi addas ar gyfer athrawon dosbarth absennol. Mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, mae’r anhawster hwn yn deillio o brinder staff sydd â’r medrau a’r profiad cywir, yn enwedig yn ystod cyfnodau pan fo’r galw’n uchel. Mewn ychydig iawn o achosion, mae penaethiaid yn dewis peidio â defnyddio athrawon cyflenwi asiantaeth sydd ar gael oherwydd pryderon blaenorol am ansawdd eu gwaith.

31 Yn aml, mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ei chael yn anodd dod o hyd i athrawon cyflenwi addas. Mae hyn o ganlyniad i brinder yn nifer yr athrawon cyflenwi sy’n siarad Cymraeg. Mae hyn yn golygu bod yr ysgolion hyn yn peryglu ansawdd o bryd i’w gilydd er mwyn defnyddio staff sydd â medrau Cymraeg. Yn achlysurol iawn, nid yw safon medrau Cymraeg staff cyflenwi a ddefnyddir yn ddigon uchel i weithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

32 Mae llawer o awdurdodau lleol yn ystyried yr effaith ar ysgolion wrth gydlynu digwyddiadau hyfforddi trwy gydol y flwyddyn. Yn yr arfer orau, mae awdurdodau lleol yn helpu ysgolion i liniaru effaith absenoldeb staff o ganlyniad i hyfforddiant trwy:

- wasgaru digwyddiadau yn ofalus trwy gydol y flwyddyn ysgol
- cysylltu â phenaethiaid i ddewis dyddiadau ar gyfer digwyddiadau sy’n achosi cyn lleied o darfu ag y bo modd i ysgolion
- rhoi digonedd o rybudd i ysgolion am ddigwyddiadau hyfforddi pwysig i gynorthwyo wrth drefnu staff cyflenwi

**Defnyddio asiantaethau addysgu yn unig i ddarparu staff cyflenwi**

33 Mae mwyafrif yr ysgolion yn ymwybodol bod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi dyfarnu’r contract ar gyfer darparu gweithwyr asiantaeth mewn ysgolion i asiantaeth addysgu ffafriedig. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion yn ansicr ynghylch a oes rhaid iddynt ddefnyddio’r asiantaeth hon i fodloni eu gofynion o ran athrawon cyflenwi. Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn nodi nad oes unrhyw orfodaeth i wneud hynny.

34 Mae rhai awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion drefnu’r holl ddarpariaeth staff cyflenwi trwy asiantaethau addysgu. Caiff hyn effaith negyddol ar allu penaethiaid i ddod o hyd i athrawon cyflenwi addas. Er enghraifft, ni ellir defnyddio staff ysgol rhan-amser presennol i fod yn staff cyflenwi ychwanegol, sy’n darparu parhad mewn darpariaeth staff cyflenwi, heb gofrestru gydag asiantaeth addysgu briodol.

### Trefniadau diogelu

35 Mae llawer o ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl athrawon cyflenwi newydd, a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgol neu drwy asiantaeth, ddarparu copi o'u tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn dechrau gweithio yn yr ysgol. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

36 Mae gormod o ysgolion nad ydynt yn rhoi gwybodaeth bwysig am bolisïau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol i athrawon cyflenwi newydd. Er bod llawer o ysgolion yn rhoi brîff llafar ar ddiogelu, lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n sicrhau bod staff cyflenwi wedi darllen a deall polisi a gweithdrefnau diogelu'r ysgol. Mewn llawer o ysgolion, rhoddir brîff llafar i staff cyflenwi newydd ar weithdrefnau diogelu'r ysgol ac mae'n ofynnol iddynt ddarllen polisi'r ysgol.

## Gwaith sy'n cael ei wneud gan ddisgyblion pan fydd yr athro dosbarth yn absennol

### Absenoldebau wedi eu cynllunio

37 Ar gyfer absenoldebau wedi eu cynllunio, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu gwaith priodol i ddisgyblion ei gwblhau ar gyfer athrawon cyflenwi. Mewn tua hanner yr ysgolion, mae'r gwaith ar yr un lefel ag y byddai'r disgyblion yn ei gael fel arfer. Fodd bynnag, mewn ysgolion eraill, mae'r athro yn gadael gwaith a allai fod ar lefel is na'r arfer ac nid yw disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud.

38 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon cyflenwi yn dilyn polisi'r ysgol wrth farcio gwaith disgyblion. Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon cyflenwi yn gadael nodyn defnyddiol i'r athro dosbarth yn amlinellu'r hyn y mae'r disgyblion wedi ei gwblhau ac yn rhoi trosolwg o unrhyw faterion a allai fod wedi codi yn ystod eu cyfnod gyda'r dosbarth.

### Absenoldeb heb ei gynllunio

39 Yn y mwyafrif o ysgolion, gall athrawon cyflenwi ddefnyddio cynllunio'r athro dosbarth i gael rhywfaint o gyd-destun ar gyfer eu gwersi. Pan na fydd gwybodaeth gynllunio ar gael, mae athrawon cyflenwi yn darparu eu gwaith eu hunain ar gyfer y disgyblion heb arweiniad. Yn aml, mae hyn yn golygu eu bod yn canolbwyntio ar gadw plant yn brysur yn hytrach nag adeiladu ar yr hyn y mae disgyblion eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud.

## Cyfleoedd rheoli perfformiad a hyfforddi ar gyfer athrawon cyflenwi

### Rheoli perfformiad athrawon cyflenwi

40 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn rhoi adborth llafar i'r pennaeth neu aelod o dîm gweinyddu'r ysgol ar berfformiad athrawon cyflenwi. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n cadw cofnod ysgrifenedig o adborth ar berfformiad staff cyflenwi.

41 Ychydig iawn o ysgolion sy’n rhoi adborth i athrawon cyflenwi yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, yn enwedig pan fyddant yno am ddiwrnod yn unig. Fel arfer, caiff unrhyw arfarniad o waith athro cyflenwi ei gasglu ar ddiwedd y diwrnod ysgol neu pan fydd yr athro dosbarth arferol wedi dychwelyd i’r gwaith.

42 Pan gaiff athro cyflenwi ei gyflogi trwy asiantaeth addysgu, mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi adborth i’r asiantaeth ar berfformiad yr athro. Mae’n arfer gyffredin i asiantaethau cyflenwi rannu’r wybodaeth hon ag athrawon unigol, yn enwedig pan fydd adborth wedi bod yn hynod ffafriol neu wael. Nid yw’r asiantaeth fel arfer yn defnyddio athrawon mewn ysgolion sy’n rhoi adborth gwael eto, oni bai mai dyma’r unig ddewis sydd ar gael. Yn yr achosion hyn, mae’r asiantaeth yn gwirio gyda’r ysgol cyn neilltuo athro iddynt.

43 Yn yr arfer orau, mae asiantaethau addysgu yn datblygu a chynnal perthynas weithio agos gyda’r ysgolion y maent yn eu gwasanaethu. Maent yn trefnu ymweliadau rheolaidd ag ysgolion gan reolwr cyfrifon i drafod perfformiad athrawon cyflenwi unigol ac unrhyw anghenion cyflenwi penodol a allai fod gan yr ysgol. Dywedodd un asiantaeth addysgu hefyd eu bod yn cyfarfod yn rheolaidd â’r grŵp llywio penaethiaid lleol i drafod materion generig a chael adborth cyffredinol ar berfformiad yr asiantaeth. Yn yr arfer orau, mae asiantaethau addysgu yn paru medrau eu hathrawon cyflenwi yn agos ag anghenion gwahanol fathau o ysgolion. Fodd bynnag, ar ddiwrnodau pan fydd llawer iawn o alw am athrawon cyflenwi neu pan fydd ysgolion yn gwneud ceisiadau ar fyr rybudd, ni allant fodloni’r galw hwn bob amser.

44 Mewn rhai ysgolion, mae arweinwyr yn sicrhau bod athrawon cyflenwi a gyflogir yn y tymor hir yn ymwybodol o flaenoriaethau’r ysgol. Mae arweinwyr yn cynnal arsylwadau gwersi ffurfiol o’u haddysgu ac yn craffu ar waith disgyblion o’u gwersi. Mae arweinwyr yn gosod targedau unigol ar gyfer gwella i’r athrawon cyflenwi hyn yn unol â pholisi a gweithdrefnau rheoli perfformiad yr ysgol, ac yn eu cynorthwyo i wella eu haddysgu.

### Trefniadau Datblygiad Proffesiynol ar gyfer athrawon cyflenwi

45 Mae arweiniad Y Cynllun Datblygu Ysgol (Llywodraeth Cymru, 2014, tud. 12) yn datgan:

> ‘Rhaid i’r Cynllun Datblygu Ysgol gynnwys manylion am ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer rhoi sylw i anghenion datblygiad proffesiynol yr holl staff, gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth, mewn perthynas â chyflawni blaenoriaethau gwella’r ysgol. Mae’r darpariaethau hyn hefyd yn cynnwys staff a leolir dros dro yn yr ysgol a fydd yn cynnwys athrawon cyflenwi byrdymor a thymor hir. Bydd darpariaeth ysgolion ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr hyn yn naturiol yn adlewyrchu natur eu contract a’u swydd.’

46 Mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn gwahodd staff cyflenwi i fynychu sesiynau hyfforddi yn yr ysgol pan fyddant yn gweithio yn yr ysgol, hyd yn oed os byddant yn cael eu lleoli yn yr ysgol am gyfnod byr yn unig. Mae llawer o ysgolion yn annog athrawon cyflenwi i fynychu diwrnodau hyfforddiant ysgol gyfan yn wirfoddol, a dim ond yn talu staff i fynychu pan fyddant yn gweithio yn yr ysgol yn y tymor hir. Ychydig o

awdurdodau lleol yn unig sy’n trefnu cyrsiau hyfforddi yn benodol ar gyfer athrawon cyflenwi.  Mae enghreifftiau o’r hyfforddiant hwn yn cynnwys y rheiny ar ddiogelu a rheoli ymddygiad.

47 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio athrawon newydd gymhwyso fel athrawon cyflenwi.  Os yw ysgolion yn cyflogi athrawon newydd gymhwyso i gyflenwi dros absenoldeb tymor byr, ni fydd yr ysgol yn mynd i’r afael â’u hanghenion datblygiad proffesiynol a hawl ychwanegol fel arfer.  Yn y rhan fwyaf o achosion, gall athrawon cyflenwi sy’n gweithio mewn ysgolion am dymor neu fwy fanteisio ar hawl ymsefydlu statudol, gan gynnwys amser digyswllt ychwanegol, hyfforddiant a mentor yn yr ysgol.  Yn ychwanegol, mae gan asiantaethau addysgu rôl bwysig o ran cynorthwyo athrawon newydd gymhwyso a gyflogir ganddynt ac o ran sicrhau eu bod yn derbyn eu hawl.  Fodd bynnag, mae gan rai ysgolion bryderon ynghylch ansawdd y cymorth a’r arweiniad hwn.

48 Mae’r rhan fwyaf o asiantaethau addysgu yn cynnig ystod o gyrsiau hyfforddi generig ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir ganddynt.  Mae’r cyrsiau hyn yn cynnwys diogelu, cymorth cyntaf, rheoli ymddygiad a hyfforddiant sydd wedi’i seilio ar gynlluniau masnachol ar gyfer llythrennedd a rhifedd.  Nid yw asiantaethau addysgu fel arfer yn talu i staff cyflenwi fynychu diwrnodau hyfforddiant ysgolion.

## Rheoli presenoldeb penaethiaid

49 Tua hanner yr ysgolion yn unig sydd â pholisi penodol ar gyfer rheoli absenoldeb y pennaeth.  Pan fydd cynlluniau wrth gefn o’r fath yn bodoli, mae trosglwyddo cyfrifoldebau i bennaeth dros dro pan fydd y pennaeth yn absennol yn fwy tebygol o fod yn llyfn.  Nid oes gan ysgolion eraill gynllun wrth gefn ar waith, ond yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae cyrff llywodraethol ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda’i gilydd i wneud trefniadau i gyflenwi yn ystod absenoldeb y pennaeth.  Fodd bynnag, mae’r trefniadau hyn o ganlyniad i reoli argyfwng, yn hytrach na chynllun a bennwyd ymlaen llaw.

50 Ar gyfer absenoldeb tymor byr, mae’r dirprwy bennaeth yn ymgymryd â rôl y pennaeth bron ym mhob achos.  Ar gyfer absenoldebau penaethiaid dros dymor hwy, mae’r awdurdod lleol yn cysylltu â chadeirydd y llywodraethwyr neu’r corff llywodraethol llawn i wneud trefniadau i gyflenwi ar gyfer yr absenoldeb.  Yn y rhan fwyaf o achosion, mae’r dirprwy bennaeth eto yn ymgymryd â chyfrifoldeb ac fe’i cefnogir gan swyddogion awdurdodau lleol neu gonsortia rhanbarthol.

51 Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig mewn rheoli absenoldeb tymor hir penaethiaid.  Mae’r awdurdod lleol yn cynorthwyo ysgolion i sicrhau trefniadau arweinyddiaeth effeithiol pan na fydd y dirprwy bennaeth mewn sefyllfa i arwain yr ysgol.  Yn y rhan fwyaf o achosion, cynhelir cyfarfodydd rhwng cynrychiolwyr yr awdurdod lleol ac aelodau o gorff llywodraethol yr ysgol i benderfynu ar y trefniadau gorau ar gyfer yr ysgol.

52 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cynrychiolydd yr awdurdod lleol yn rhoi ystod o ddewisiadau cyflenwi i gorff llywodraethol yr ysgol. Yn aml, mae'r rhain yn cynnwys:

- secondio pennaeth neu ddirprwy bennaeth o ysgol lwyddiannus arall
- penodi pennaeth gweithredol sydd â chyfrifoldeb ar y cyd am fwy nag un ysgol
- penodi pennaeth gweithredol, ond penodi uwch arweinydd ychwanegol i fod yn 'bennaeth ysgol' sy'n gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd
- penodi pennaeth sydd wedi ymddeol yn ddiweddar ar gontract tymor byr

53 Yn yr arfer orau, mae'r awdurdod lleol yn cynnal cyswllt agos â chadeirydd y llywodraethwyr a'r pennaeth dros dro trwy gydol unrhyw drefniadau dros dro. Mae llawer o awdurdodau lleol hefyd yn darparu rhaglen ymsefydlu, yn ogystal â chymorth rheolaidd ar gyfer y pennaeth dros dro. Mewn rhai achosion, mae hyn yn cynnwys cymorth ac arweiniad mentor, sydd fel arfer yn bennaeth profiadol, i'w gynorthwyo a rhoi arweiniad iddo.

54 Mae lleiafrif o awdurdodau lleol yn ysgrifennu at ysgolion i ofyn a oes ganddynt uwch aelodau o staff a fyddai'n elwa ar gyfle i ddatblygu. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi ac fe'i defnyddir pan fydd yr awdurdod yn chwilio am ddarpariaeth gyflenwi addas ar gyfer penaethiaid absennol. Athrawon sydd wedi dangos diddordeb mewn cwblhau'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yw'r gwirfoddolwyr hyn yn aml. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad ledled Cymru o ran faint o gymorth y mae awdurdodau lleol yn ei roi i benaethiaid dros dro llwyddiannus i'w cynorthwyo i sicrhau lle ar y rhaglen asesu CPCP. O ganlyniad, mae gormod o benaethiaid dros dro na ellir eu penodi i'r swydd yn barhaol gan nad ydynt yn meddu ar y cymhwyster CPCP.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Absennol (wrth gyfeirio at athro dosbarth)** | Nid yw ar gael i addysgu ei ddosbarth |
| **Absennol (wrth gyfeirio at y pennaeth)** | Nid yw ar safle'r ysgol |
| **Absenoldeb heb ei gynllunio** | Pan fydd aelod o staff yn absennol o'r gweithle o ganlyniad i salwch, argyfwng neu reswm arall ac nid yw wedi rhoi rhybudd am yr absenoldeb |
| **Absenoldeb tymor byr** | Absenoldeb o hyd at bedair wythnos |
| **Absenoldeb tymor hir** | Absenoldeb sy'n hwy na phedair wythnos |
| **Absenoldeb wedi ei gynllunio** | Pan fydd aelod o staff yn absennol o'r ysgol o ganlyniad i reswm a gytunwyd ymlaen llaw, wedi ei awdurdodi gan ei bennaeth |
| **Asiantaethau staff cyflenwi** | Sefydliadau sy'n darparu staff cyflenwi i ysgolion ar gyfer staff sy'n absennol |
| **Ffederasiwn** | Cytundeb ffurfiol a chyfreithiol sy'n golygu bod nifer o ysgolion (rhwng dwy a chwe ysgol) yn rhannu trefniadau llywodraethu a bod ganddynt un corff llywodraethol |
| **Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC)** | Sefydlwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fel cydweithrediad ar draws y sector cyhoeddus i gaffael gwariant cyffredin ac ailadroddus ar gyfer Cymru. |
| **Pennaeth gweithredol** | Pennaeth sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am 2 ysgol neu fwy |
| **Staff cymorth** | Staff nad ydynt yn addysgu, sy'n cael eu cyflogi i gynorthwyo disgyblion a'r athro, er enghraifft cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cymorth dysgu, cynorthwywyr addysgu lefel uwch |

## Cyfeiriadau

Cyngor y Gweithlu Addysg (2016) *Arweiniad i Gyflogwyr: Cyflogi Athrawon Ysgol a Gweithwyr Cymorth Dysgu mewn Ysgolion.* Caerdydd: Y Tîm Cymwysterau a Chofrestru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://ewc.wales/site/index.php/en/documents/registration/2-the-guidance-on-the-registration-of-school-teachers-and-school-learning-support-workers [Defnyddiwyd 18 Hydref 2016]. (Saesneg yn unig.)

Estyn (2013) *Effaith absenoldeb athrawon*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Effaith%20absenoldeb%20athrawon%20-%20Medi%202013.pdf [Defnyddiwyd 6 Mai 2016].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2006) *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2006/873/pdfs/wsi_20060873_mi.pdf [Defnyddiwyd 11 Awst 2016].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (2014) *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD9751%20-%20Report%20of%20the%20Public%20Accounts%20Committee%20%20-%20Covering%20Teachers'%20Absence-12052014-255962/cr-ld9751-e-Cymraeg.pdf [Defnyddiwyd 6 Mai 2016].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, (2015) *Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10483/cr-ld10483-w.pdf [Defnyddiwyd 6 Mai 2016].

Swyddfa Archwilio Cymru (2013) *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon*. Caerdydd: Swyddfa Archwilio Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.audit.wales/system/files/publications/Covering_Teachers_Absence_Welsh_2013.pdf [Defnyddiwyd 6 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru (2014) *Cynlluniau Datblygu Ysgolion.* Dogfen arweiniad 155/2014. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/141023-school-development-plans-cy.pdf [Defnyddiwyd 11 Awst 2016].

Llywodraeth Cymru (2015) *Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol.* Dogfen arweiniad 178/2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150717-effective-management-cy.pdf [Defnyddiwyd 6 Mai 2016].